

Cofion

- Anfonwn ein cofion at y cleifion sydd yn yr ysbyty – Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Rhuthun, Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari, Megan Evans a Ceinlys Jones (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd, a Gwyneth Rawson yn Ysbyty Llandudno. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddian y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

I ddod

- **KESWICK – LLANDUDNO: WYTHNOS Y BEIBL** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ (Mai 1af – 4ydd). **Cyfarfod Cymraeg** nos Wener am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Mai 2il. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan dydd Gwener, Mai 11eg. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - ⇒ **Cwrs leuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
 - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
 - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseciel 12:1-7 (BCND tud.760 / BCN tud.692)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Ebrill 2018

Darlleniad y Dydd

Hebraid 13:1-6

(BCND tud.250 / BCN tud.229)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da i chi gyd a chroeso i'r oedfaon ar draws Bro Aled. Dewch i ni weddio efo'n gilydd heddiw am bresenoldeb Arglwydd y Nefoedd yn ein bywydau. Dewch i ni hefyd groesawu'r Ysbryd Glân, sy'n rhoi bywyd a nerth i mewn i'n gwasanaethau ni heddiw.

Pwy ydy Duw i chi? Beth ydy rôl Duw yn eich bywyd chi? Mae nifer o ddarluniau gwahanol allem bwysu arnyd nhw i ddisgrifio ein perthynas efo Duw. Efallai ein bod yn meddwl ei fod fel heddwch neu farnwr – mae'n bell, amhersonol ac yn ceisio ein dal allan. Dydy Duw ddim ond yn ymddangos yn ein bywydau pan da ni'n gwneud rhywbeth o'i le, a hyd yn oed bryd hynny, dim ond yna i farnu neu gosbi mae o. Neu tybed ydy Duw fel 'lifeguard' yn ein bywydau. Da chi'n gwybod, mae o ar yr ochrau yn ein gwyllo ac yn neidio i mewn i'n hachub pan da ni mewn trwbl. Pan mae pethau'n mynd yn ormod yn ein bywydau, dyna pryd da ni'n troi at Dduw gan wybod, neu hyd yn oed ddisgwyl ei fod yn gallu ein hachub.

Dewch i ni edrych ar berthynas y Salmydd gyda'r Arglwydd. "Y mae'r ARGLWYDD o'm tu, nid ofnaf; beth a wna pobl i mi?" Mae'r Arglwydd o'n plaid ni. Mae o ar ein hochr ni, ac yn helpu. I'r rhai sy'n trystio yn yr Arglwydd, mae o yna. Mae adnodau 8 a 9 o Salm 118 yn cynnig bod lloches i'w gael yn Nuw. Mae'r lloches allem ei gael yn Nuw yn fwy saff ac yn fwy dibynadwy nag allwn ei gael yn unman arall. Ym mhob sefyllfa mewn bywyd, mae Duw yna i'n cynnal ac yn brwydro o'n plaid: "Roedden nhw'n gwasgu arna i'n galed, a bu bron i mi syrthio; ond dyma'r ARGLWYDD yn fy helpu." (Salm 118:13)

Dyna'r sicrwydd mae'r Arglwydd yn ei roi. Does dim rhaid i ni ofni, ond beth am berthynas? Mae Salm 118 yn mynegi cymaint o emosiynau a phrofiadau gwahanol, ond beth sy'n gyffredin yn y rhain i gyd ydy presenoldeb Duw a dibyniaeth y Salmydd ar Dduw yn y sefyllfaoedd gwahanol yma. "Yr Arglwydd sy'n rhoi nerth a chân i mi." (Salm 118:14) Tybed ydym ni'n ystyried Duw fel yr un sy'n rhoi'r nerth i ni wynebu'r dydd, neu fel yr un sy'n rhoi gwir lawenydd i ni? Neu ydym ni'n sylweddoli ei fod o hyd yn oed yn gallu rhoi'r pethau yna i ni yn y lle cyntaf?

Pam na wnawn ni heddiw gymryd y cyfle i wneud ymchwil i fewn i pwy ydy Duw a sut gymeriad sydd ganddo? Tybed pa fath o Dduw wnawn ni ei ddarganfod wrth ddarllen amdano?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 17^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 18^{fed} ➤ **Dal i Gredu** – sesiwn holi a thrafod yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 19^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – 20^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Rhagrybudd ➤ Ar ddechrau'r oedfa ar Ebrill 29ain, fe fydd aelodau Capel Cefn Meiriadog yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15.
➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 17^{eg} ➤ 'Paned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30 – 3.30 a phnawn yng nghwmni Haf Parry, Tremeirchion.
- Mercher – 18^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (15^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Gwener – 20^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn HEDDIW (15^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Yn ystod oedfa'r bore yng Nghefn Berain, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
 - Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
 - Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.